# YSGOL GYMRAEG PARC Y TYWYN

'Nid da lle gellir gwell'

Annwyl Riant / Warchodwr,

Estynnwn groeso cynnes i bawb ar ddechrau blwyddyn newydd, yn enwedig i'r plant sy'n dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf. Fe wnawn ein gorau glas i sicrhau fod pawb yn ymgartrefu'n hwylus, ond, os oes unrhyw anhawsterau neu rhywbeth sy'n eich poeni yna cysylltwch â ni heb oedi. Hoffwn hefyd croesawi 2 aelod o staff newydd i'r ysgol sef Mrs A Davies (athrawes ym mlwyddyn 2) ac i Mrs Ch Davies (athrawes dros dro ym mlwyddyn 6).

**Clwb brecwast :** drysau yn agor am 8:00 ac yn cau am 8:30

Mae'r clwb brecwast yn cychwyn am 8:00 bob bore, gofynnwn yn garedig i rieni aros gyda'u plant tan y bydd y clwb yn cychwyn. Nid ydym fel ysgol a'r cyfrifoldeb i warchod unrhyw blentyn sydd yn cyrraedd yr ysgol cyn i ddrysau'r clwb brecwast agor. O safbwynt diogelwch eich plentyn, mae'n bwysig bod pob rhiant sy'n cludo eu plentyn i'r ysgol yn sicrhau eu bod yn trosglwyddo eu plentyn i aelod o staff y clwb brecwast ac yn arwyddo'r gofrestr bob dydd.

**Dechrau'r diwrnod ysgol**

Bydd y gât yn agor yn y bore, ar gyfer plant sydd ddim yn mynychu'r clwb brecwast am 8:50. Mae'r diwrnod ysgol yn dechrau am 9:00 o'r gloch a disgwylir i bob plentyn fod ar dir yr ysgol erbyn hynny. Fe fydd aelodau o staff dysgu'r ysgol wrth y glwyd i gyfarch ein disgyblion.

**Casglu eich plant o'r ysgol ar ddiwedd dydd**

Gofynnir i rieni i gasglu eu plant o'r dosbarthiadau dynodedig trwy ddod i mewn i'r iard wrth y gatiau mawr nesaf i gegin yr ysgol (tu cefn i maes parcio'r staff).

**Gwisg ysgol**

Mae'r wisg ysgol yn symbol gweladwy o barch at gymuned yr ysgol yr ydym yn perthyn iddi ac felly disgwyliwn i'n ddisgyblion ddilyn y canllawiau isod. Gofynnwn yn garedig i rieni gadw at wisg ysgol gywir yr ysgol. Yn ogystal mae esgidiau a gwisg addas yn angenrheidiol ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol. Disgwylir i ddisgyblion newid cyn y wers ac yna nôl i'w gwisg ysgol ar ddiwedd y wers. Ni ddylid gwisgo gemwaith i'r ysgol am resymau iechyd a diogelwch. Erfyniwn arnoch i osod enw eich plentyn yn glir ar ei dd/dillad. Oni wneir hyn, ni fydd modd i ni ddod o hyd i ddillad coll!

**Parcio**

**Ni chaniateir i rieni barcio yn faes parcio'r staff** - bydd disgwyl i rieni barcio yn y maes parcio pellaf. Gyrrwch yn ofalus ac yn bwyllog ger yr ysgol a pheidiwch barcio mewn llefydd sy'n atal llif y drafnidiaeth. A allwch sicrhau nad ydych yn rhwystro trigolion yr ardal rhag mynd at eu cartref pan yr ydych yn dod a'ch plentyn/plant neu'n ôl eich plentyn/plant o'r ysgol. Erfynnir am gydweithrediad pawb er diogelwch y plant.

**Meddyginiaethau**

Does dim disgwyl i unrhyw aelod o'r staff drefnu neu roddi unrhyw feddyginiaeth i blant yr ysgol. Serch hyn, gall achosion godi lle mae'n fuddiol i iechyd y plentyn er mwyn iddo/iddi beidio â cholli ysgol dderbyn moddion, a roddwyd gan feddyg, yn yr ysgol. Mewn achosion fel hyn, disgwylir i rieni gysylltu â'r swyddfa er mwyn llenwi ffurflen ganiatâd i roi meddyginiaeth i blant. Lle bo'n bosibl, fe ddylai rhieni ofyn i'w meddyg teuluol i ddarparu meddyginiaeth i'w plentyn lle nad oes angen cymryd dôs yn ystod diwrnod ysgol. Ni all staff yr ysgol roddi moddion sydd heb ei ddarparu gan feddyg.

**Rhifau Cyswllt**

Mae'n bwysig iawn bod gennym rifau cyswllt cyfredol ar gyfer eich plentyn rhag ofn y bydd angen i ni gysylltu â chi mewn argyfwng. Os nad ydych wedi gwirio neu wedi adnewyddu eich rhifau cyswllt y tymor hwn, yna erfyniwn arnoch i wneud hynny cyn gynted ag y bo modd. Dychwelwch y ffurflen Tystysgrif Iechyd/rhifau cyswllt mor gynt a phosib.

**Ysgol Iach / Cacennau penblwydd**

Rydym yn falch iawn o'm statws Ysgol Iach yn Ysgol Gymrag Parc y Tywyn ac ar ôl derbyn llwyddiant ym mhob cam o fenter Ysgolion Iach Sirr Gaerfyrddin rydym nawr yn anelu at gyrraedd y wobr Ansawdd Genedlaethol. Er mwyn llwyddo, rhaid i ni ddangos ein bod yn parhau ac yn gwella'r weithredoedd rydym wedi eu gwneud yn flaenorol. Byddwn yn ddiochgar iawn i gael eich cefnogaeth wrth i ni weithredu hyn ac mae gennych ran bwysig i chwarae wrth i ni symud ymlaen. Gallwch ein cynorthwyo wrth sicrhau'r canlynol:

- Dylai unrhyw fyrbrydiau o'r cartref fod yn iachus e.e ffrwyth
- Dim losin neu ddiodydd melys
- Dylid annog y plant sy'n cael brechdanau i ddod a bwydydd iachus yn eu bocsys bwyd – mae ffrwythau, llysiau, bara, grawnfwyd a dŵr yn enghreifftiau da. Cymerwch ofal gyda rhai bwydydd sy'n cynnwys caloriau heb i chi ystyried!
- Annogir y plant i ddod â photel CLIR o ddŵr i'r ysgol yn ddyddiol.
- Nodwch os gwelwch fod yn dda, **ni fyddwn yn derbyn neu dosbarthu cacennau penblwyddi yn y dosbarthiadau.**


Os oes gennych unrhyw arbenigedd neu syniadau a fyddai yn fuddiol wrth i ni anelu am y wobr anrhydeddus yma a wnewch chi gysylltu a Mrs S Richards, ein cydlynnydd Ysgol Iach, os gwelwch yn dda.

**Cinio Ysgol / Parent Pay**

£12.50 yw pris cinio ysgol am yr wythnos (£2.50 y diwrnod). Mae arian parod neu siec yn dderbyniol. Sieciau yn daladwy i C.C.C. Rhaid sicrhau bod unrhyw arian wedi ei rhoi mewn **amlen caeedig gyda enw'r plentyn a'i ddosbarth arno.**

Mewn ymdrech i symud i awyrgylch dim arian yn yr ysgol, o fis Hydref 2019 bydd gofyn ichi fel rhieni i ddefnyddio system e-dalu newydd i dalu am ginio ysgol â maes o law deithiau ac ymweliadau ynghyd . Bydd hyn yn gallu digwydd drwy system e-dalu ar wefan hynod ddiogel o'r enw ParentPay, neu wrth ddefnyddio arian parod mewn siopau lleol, lle gwelwch logo PayPoint. Byddwn yn anfon llythyr cofrestru atoch yn fuan yn cynnwys eich enw-defnyddiwr a'ch cyfrin-air er mwyn eich galluogi i agor eich cyfrif ParentPay.

**Lawrlwythwch ein Ap ysgol newydd i'ch ffôn symudol i gael y wybodaeth ddiweddaraf**




Tymor diwethaf, buom yn brysur yn diweddaru gwefan newydd ein hysgol. Ewch i www.ysgolparcytywyn.co.uk. Er mwyn datblygu ein cysylltiadau â chi ymhellach, ac er mwyn eich diweddaru ar newyddion a digwyddiadau, fedrwch chi nawr lawrlwytho ap yr ysgol i'ch ffôn. Mae 'TheSchoolApp' yn cael ei bweru gan ein gwefan, sy'n eich galluogi i gael y wybodaeth ddiweddaraf am newyddion a digwyddiadau yr ysgol o'ch dyfais symudol. Mae 'TheSchoolApp' AM DDIM i chi ei lawrlwytho. Y cam cyntaf yw i lawrlwytho 'TheSchoolApp' ar eich ffôn - y ffordd orau o wneud hyn yw chwilio'r App Store (Apple) neu Google Play (Android) am 'TheSchoolApp'.

Rydym yn annog pob rhiant i lawrlwytho'r ap. O fis Ionawr 2020, ein nod yw i fod yn 'ddi-bapur' o ran yr oheb-iaeth a ddosbarthwn i rieni. Yn lle, bydd gwybodaeth yn cael ei phostio ar ein gwefan a byddwch yn cael gwybod am ddogfennau o'r fath trwy hysbysiadau gwthio ar eich ffon. Byddwn hefyd yn defnyddio'r ap i'ch hysbysu am wybodaeth bwysig yn ogystal â negeseuon defnyddiol (e.e. diwrnodau eira, taith ysgol yn hwyr yn ôl oherwydd traffig, nodiadau atgoffa ac ati).

**Swydd wag Rhiant-lywodraethwr (x1)**

Mae enwebiadau nawr yn cael eu gwahodd ar gyfer swydd Rhiant Lywodraethwr ar Gorff Llywodraethol ein hysgol. Mae rhieni-lywodraethwyr yn chwarae rhan bwysig fel aelodau o'r corff llywodraethu, sy'n gyfrifol am gyfarwyddo ymddygiad yr ysgol ac am hyrwyddo safonau uchel o gyrhaeddiad addysgol. Y tymor swydd i riant-lywodraethwyr fel y'i pennir gan y corff llywodraethu yw 4 blynedd. Mae gan yr ysgol ddisgwyliadau uchel o'r amser a'r ymrwymiad sy'n ofynnol gan ei llywodraethwyr er mwyn cyflawni eu rolau yn effeithiol. Mae hyfforddiant ar gael i bob llywodraethwr ac anogir y rhai sy'n newydd i fod yn llywodraethwr i fynychu hyfforddiant sefydlu.

Os oes gennych ddiddordeb yn y rôl, dewch i'r dderbynfa i godi ffurflen gais. Y dyddiad cau ar gyfer ffurflenni cais: 10am ddydd Gwener, 27ain Medi 2019

**CRHA**

Mae'r CRhA yn hanesyddol wedi bod yn gymdeithas hynod o effeithiol yn cydweithio er lles ein disgyblion wrth godi arian a helpu i ariannu gweithgareddau yn yr ysgol sydd er budd y disgyblion. Bydd cyfarfod cyntaf y flwyddyn ar Ddydd Mercher 18/9/18 a3:30 yn yr ysgol. Croeso i bawb. Wrth wirfoddoli byddwch yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i addysg eich plentyn ac yn helpu datblygu'r ysgol ymhellach.

**Clybiau Allgyrsiol / Cylchlythyr**

Byddwn yn dosbarthu amserlen clybiau allgyrsiol y tymor wythnos nesaf ynghyd a cylchlythyr y tymor a fydd yn cynnwys dyddiadau a digwyddiadau'r tymor. Bydd y clybiau yn cychwyn yr wythnos yn dechrau 16/09/19.

**Polisi drws agored -** *Cofiwch fod ein drws o hyd ar agor!*

Mae gennym bolisi 'drws agored' yma ym Mharc y Tywyn. Rydym ar gael ar ddiwedd y dydd i drafod unrhyw faterion sydd yn eich poeni neu allwch drefnu apwyntiad gyda'r athro ynglyn ag amser sy'n gyfleus i'r ddau barti. *Peidiwch â cholli cwsg - dewch am sgwrs!*

Yn ddiffuant,

***C Davies***

(Pennaeth)

# YSGOL GYMRAEG PARC Y TYWYN

'Nid da lle gellir gwell'

Dear Parent / Guardian,

*We extend a warm welcome to everybody at the beginning of this new school year, and in particular to those children who are commencing school for the first time. We will do our utmost to ensure that everyone feels at home and settles down quickly. However, if there are any difficulties please contact us without delay. We would also like to welcome two new members of staff to the school; Mrs A Davies (year 2 teacher) and Mrs Ch Davies (Yr 6 interim teacher).*

**Breakfast club :** doors open at 8:00 and close at 8:30

Breakfast club starts at 8:00am. We kindly ask that parents supervise their child until breakfast club begins. The school is not responsible for any child that arrives on school premises before the breakfast club doors open. For the safety of your child, it is important that parents hand over their child to a member of the breakfast club staff and sign the register daily.

**Start of School Day**

The gate to enter the school grounds will open for children who do not attend breakfast club at 8:50.The school day starts at 9:00am and all pupils are expected to be on the school premises by this time. Members of staff will be at the gate to greet pupils and parents.

**Collecting your child from school at the end of the day**

Parents/guardians are to collect their children from the designated classroom doors through gaining access to the school yard via the gates next to the kitchen (located at the rear of the staff car park).

**School uniform**

Our uniform is a visual symbol of our pride in the school community which we belong. We kindly ask that parents adhere to our school uniform code. Appropriate clothes and footwear are essential for Physical Education lessons. Pupils are required to change into these clothes before the lesson and back into uniform after the lesson. No jewellery is to be worn to school for health and safety reasons. We urge you to write your child's name clearly on his/her clothes. Unless this is done, we will not be able to identify the owners of any lost property!

**Parking**

***Parents are not allowed to park in the staff car park*** *- parents are to use the large car park.* We ask for everyone's co-operation in this respect for the safety of the children. Please drive safely and slowly near the school and don't park in areas that block the flow of traffic! Could you please ensure that you do not impede the local residence entering or leaving their homes when you bring or collect your child/children from school. We ask for everyone's co-operation in this respect for the safety of the children.

**Medicines**

It is not expected of any members of staff to arrange or to administer any medicines for children in school. However, circumstances may arise where children are well enough to attend school having been prescribed medicine by their GP. In cases such as this, parents must contact the school and complete a consent form enabling members of staff to administer prescribed medicines. Where possible, parents should ask their GP to prescribe medicine for their child that does not require the administration of any dosage during the school day. School staff cannot administer medicines that have not been prescribed by a doctor.

**Contact Numbers**

In the event of an emergency it is very important that you have provided us with contact numbers for your child. If you have not yet confirmed or updated your emergency numbers for this term, then we urge you to do so as soon as possible. Please return the Medical form/contact details as soon as possible.

**Healthy School / Birthday Cake**

We take pride in our Healthy School status here at Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn and are pleased to have achieved all six phases of the Carmarthenshire Healthy Schools scheme. Our next step is to aim for the National Quality Mark award which involves collating our evidence and continuing to look for ways to improve the healthy actions we have previously done. Your support is greatly appreciated and you play a vital part in assisting us by ensuring the following:

- Fruit / vegetables only at break time
- No sweets or fizzy drinks
- Pupils who bring a packed lunch should be encouraged to bring healthy foods and drinks in their lunch boxes – plenty of fruit, vegetables, wholemeal bread and water are a few examples. Watch out for those hidden calories in certain foods!
- Pupils should bring a CLEAR bottle of water to keep on their desk every day.
- **Please refrain from sending in any birthday cake to distribute in class.**


If you have any expertise or additional ideas which would be beneficial in leading us forward for this prestigious award, please contact Mrs S Richards, our healthy school coordinator.

**SCHOOL DINNER / PARENT PAY**

Dinner money is £12.50 per week (£2.50 per day). Cash or cheques are acceptable. Cheques should be made payable to C.C.C All monies should be **placed in a sealed envelop with your child's name and class clearly stated on it.**

In an attempt to remove all cash and cheques from school, as of October 2019, all parents will have to use our new e-payment method to pay for school dinners and in the near future for school trips and visits. This can be done online using a very secure website called ParentPay or in cash at local stores where you see the PayPoint logo. In due course, we will send you an activation letter containing your activation username and password to enable you to setup your ParentPay account.

**Download our new school App to your mobile to keep up to date**




Last term, we were busy updating our new school website. Please visit www.ysgolparcytywyn.co.uk. In order to further develop our links with yourselves and in order to keep you posted on news and events, you are now able to download the school app on to your phone. TheSchoolApp is powered by our website, which allows you to stay up to date with the school's latest news and events from your mobile device. TheSchoolApp is FREE for you to download. The first step is to get TheSchoolApp on your phone –the easiest way to do this is to search the App Store (Apple) or Google Play (Android) for '**TheSchoolApp'**. Select the school and allow push notifications.

We encourage all parents to download the app. As of January 2020, we aim to become 'paperless' with regards to the correspondence we distribute to parents. Instead, information will be posted on our website and you will be notified of such documents via push notifications. We will also use the app to let you know important information as well as helpful reminders (eg. snow days, school trip late back due to traffic, reminders etc).

**Parent Governor vacancy (x1)**

Nominations are now being invited for the position of Parent Governor on our school's Governing Body. Parent governors play an important role as members of the governing body, which is responsible for directing the conduct of the school and for promoting high standards of educational achievement. The term of office for parent governors as determined by the governing body is 4 years. The school has high expectations of the time and commitment required from its governors in order to effectively fulfil their roles. Training is available for all governors and those new to being a governor are encouraged to attend induction training.

If you are interested in the role, please come to reception to pick up an application form. The closing date for application forms: 10am on Friday, 27th September 2019.

**PTA**

Historically, the PTA has been highly effective through working with the school in the interest of the children to raise funds and to buy resources for the benefit of the pupils. The first meeting for the schools PTA will be held on Wednesday 18/9/18 at 3:30 in the school. There will be a warm welcome for everyone. By getting involved you will be making a valuable contribution to your child's education and help develop the school further.

**After School Clubs/ Newsletter**

We will distribute the after school timetable next week together with a newsletter outlining key dates and events for this terms. After school clubs will commence the week beginning 16/09/19.

**Open door policy -** *Remember our door is always open!*

*We have an 'open door' policy here at Ysgol Parc y Tywyn. We are usually available at the end of the day to discuss any matters that may concern you or* alternatively you can make an appointment with the teacher at the convenience of both parties. A problem shared is a problem halved!

Your sincerely,

***C Davies***

(Headteacher)

Pennaeth / Headteacher: C Davies
Heol Y Bardd, Porth Tywyn, Llanelli, Sir Gaerfyrddin SA16 0NL
Ffôn/Tel : (01554) 832101 Ebost/ E-mail : admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru